Manyleb ar gyfer swydd Cynghorwr Arbenigol i'r Pwyllgor Cyllid

Mae'r Pwyllgor Cyllid am benodi Cynghorwyr Arbenigol ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol a allai gynnwys cyllidebau, llunio rhagolygon a threthi yn ystod gweddill y pumed Cynulliad.

Byddai'r ymchwiliad cyntaf yn cynnwys rhoi cyngor arbenigol a thechnegol i'r Pwyllgor mewn perthynas â chraffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

Mae rôl y Cynghorwr Arbenigol yn cynnwys:

- cynorthwyo â'r gwaith o gwmpasu a diffinio cylchoedd gwaith ar gyfer ymchwiliadau;
- llunio papurau briffio cefndirol ar gyfer y pwyllgor ym maes arbenigedd y cynghorwr;
- helpu i ddethol tystion priodol a meysydd posibl i holi yn eu cylch yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar;
- gweithio gyda thîm y Pwyllgor (sy'n cynnwys y clerc, ymchwilwyr a chyfreithwyr) drwy gydol yr ymchwiliad i baratoi ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar (a mynd i'r sesiynau hyn pan fo angen);
- nodi themâu a materion allweddol sy'n dod i'r amlwg drwy gydol y broses graffu, yn enwedig cyn unrhyw sesiwn graffu derfynol gyda'r Gweinidog perthnasol. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau bod y Pwyllgor yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y prif faterion sy'n codi o'i gwaith;
- cyfrannu at y gwaith o lunio adroddiad awdurdodol sy'n cynnwys casgliadau ac argymhellion clir a manwl i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn ddylanwadol ac yn arwain at ganlyniad cadarnhaol. Gall mewnbwn cynghorwr yn ystod y cam hwn helpu i sicrhau bod cynnwys yr adroddiad yn gadarn yn dechnegol ac yn gallu gwrthsefyll gwaith craffu manwl gan arbenigwyr allanol, gan gynnwys Gweinidogion a swyddogion y Llywodraeth;

- darparu unrhyw gyngor sydd ei angen ar y Pwyllgor, y Cadeirydd a'r tîm clercio (mae'r tîm clercio yn cynnwys clercod, cyfreithwyr ac ymchwilwyr).

Manyleb y Person

Sgiliau/Galluoedd – Rhaid i'r cynghorwr fod â sgiliau dadansoddi amlwg a sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac mae'r gallu i egluro materion technegol neu gymhleth yn hanfodol.

Profiad – Bydd gan y cynghorwr brofiad o gyllid yn y sector cyhoeddus/preifat ac o weithio gydag uwch weithredwyr, gwleidyddion a/neu bwyllgorau.

Dealltwriaeth – Dylai'r cynghorwr fod â dealltwriaeth dda o waith, pwerau a gweithdrefnau'r Cynulliad, gan ddangos dealltwriaeth dda o rôl a chylch gwaith y Pwyllgor Cyllid.

Arbenigedd – Gwybodaeth am faterion yn ymwneud â chyllidebu, llunio rhagolygon, cyllid cyhoeddus, polisi treth neu system dreth y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r trethi a ddatganolwyd i Gymru.

Gwahoddir ymgeiswyr i gynnwys llythyr eglurhaol sy'n nodi sut y maent yn bodloni'r meini prawf ym **Manyleb y Person** a chopi o'u CV, i gyrraedd Clerc y Pwyllgor erbyn **9 Medi 2019.** Gofynnwn ichi anfon eich cais drwy e-bost at: SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

I gael rhagor o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â Bethan Davies (0300 200 6372) neu Leanne Hatcher (0300 200 6343), sef clercod y Pwyllgor Cyllid.

Caiff cyflog y penodiad ei dalu ar gyfradd Cynghorwr Arbenigol y Cynulliad, sef £200 y diwrnod am 15 o ddiwrnodau, neu gyfanswm o £3,000.

Y swydd bresennol ar gyfer Cynghorwr Arbenigol mewn perthynas â chraffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, ag arbenigedd penodol ym maes trethi

Mae'r Pwyllgor Cyllid am benodi Cynghorwr Arbenigol i gynorthwyo â'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Yn benodol, bydd y Cynghorwr yn helpu i wella gwaith craffu'r Pwyllgor o ran **treth, llunio rhagolygon a chyllidebu strategol.**
Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol a chyffredinol. Rydym hefyd yn cydweithio â phwyllgorau eraill y Cynulliad i sicrhau y caiff cynigion ar gyfer adrannau penodol neu bortffolios gweinidogol eu hystyried yn fanwl.

Ym mis Ebrill 2018, daeth trethi newydd Cymru, sef y dreth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir, i rym, ac yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol, gyda threthdalwyr Cymru yn gweld codau treth newydd Cymru ar eu slipiau cyflog am y tro cyntaf. Mae gan y datblygiadau newydd hyn oblygiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru ac i'r gwaith craffu ar y gyllideb gan y Pwyllgor Cyllid.

Amserlen

Fel arfer, cyhoeddir cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Hydref. Fodd bynnag, o gofio bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal adolygiad cynhwysfawr o wariant eleni, a fydd yn dod i ben ochr yn ochr â chyllideb y DU, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cyhoeddi'r cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd ar 10 Rhagfyr 2019, a'r gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2020. Fodd bynnag, yn sgil penodi Prif Weinidog newydd y DU, os caiff cyllideb frys ei chyhoeddi'n gynharach sy'n cadarnhau'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, gallai'r dyddiadau hyn gael eu diwygio. Felly, mae'r Pwyllgor Cyllid yn debygol o ddechrau ei ymchwiliad tua mis Tachwedd/mis Rhagfyr 2019. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft ac mae'r manylion ar gael yma.